
# CAN NEWYDD.

O YMDDIDDAN

## RHWNG MAB A MERCH.



MAB.

Gwrando'r seren fwyn lygad-lon
Ar gwynfan mab sy'n glaf ei galon.

MERCH.

Nid wy'n malio dim o'r mymryn,
Pe bait ti gwedi'th gladdu'r lliprin.

MAB.

A wytti'n cofio'r holl bromeision,
F' anwylyd fach fy 'styddiau rhyngom?

MERCH.

Pŵ, baw, diw promeis ond lle cadwer,
Mae gydaf i dy drech di lawer.

MAB.

Beth os twyllith hwnnw dithau,
Run modd y twyllest tithau finau?

MERCH.

Ni chymrai ddim o nhwyllo ganddo,
Dwi'n malio brwynen grîn am dano.

MAB.

Row'n i'n meddwl, Gwen, lliw'r hinon,
Er's lawer dydd fod tro yn dy gynffon.

MERCH.

F'alle'n wir, dwy ddim yn amau,
Mae troion rai yn dy gynffon dithau.

MAB.

Can ffarwel os rhaid ymadael,
Dyro gysan etto o ffarwel.

MERCH.

Cymmer ddau a paid a lleisio,
Ti cest ê ganwaith heb ei geisio,
Ond wrando fachgen cyn ymadael,
Mae geni air i ddweyd yn isel.

MAB.

O! beth, wyt tithau dechrau cwyno,
Dwy'n malio fferlling dwed neu beidio

MERCH.

Ti addewest fy mhriodi,
Os digwyddeu i mi feichiogi.

MAB.

Mi gymra'n amser, stopa dipin,
Ond oet ti gynau 'nghalwy'n lliprin.

XEOY 2403X

## MERCH.

Mewn nwydau drwg 'rown i'r pryd hyny,
Rw'i nawr yn dirfawr edifaru.

## MAB.

Ddaw'r amser byth yn ôl nôle pasio,
Gwaith ofer codi pais no. pisio

## MERCH.

Os own i'n dwed rhiw ddwli ginau,
Mae ammherffeiddrwydd yn y goreu;

## MAB.

Oes yn wir mae achos ofni,
Mae iolen fyddi 'nol priodi,
Gwêd os doi di, Gwen lliw'r blodau,
Yn wraig briod i'm hŷd angau.

## MERCH.

Ha! ha! gwnewn gwpwl dedwydd wedin,
Fi yn iolen, tithau yn iolin;

## MAB.

Mae llawer dau fel ti a finau,
'Nol myn'd y'nghyd yn byw o'r goreu.

## MERCH.

Wel mi briodwn doed a ddelo,
Ni chollir brwydyr byth cyn trio.

## MAB.

Mae'n rhaid cael sâr i weitho gwely,
A seld, a chwbwrd, cyn priodi.

## MERCH.

Mae geni ddau bâr o flancedi,
A rhwg, a charthen, a gobeni'.

## MAB.

Mae'n rhaid cael hefyd blank a thrybe,
A lletwad bren, a liwyê a ffiolau.

MERCH.

Mae geni stwc a thwba i olchi,
A chwrtens glân oddeuty'r gwely.

MAB.

Mae'n rhaid cael ffyst, a chaib i labro,
A rhaw, a ffal, i mi cael cloddi.

MERCH.

Mae geni rôd, a ffar o gribau,
A gweill yn barod i wau sanau.

MAB.

Mae'n rhaid cael wedyn gidle a chrochon,
Linke a bachau i ferwi'r cloron;

MERCH.

Rhaid, a chryd i siglo'r babi.
A noe i wlychu'r toes cyn pobi.

MAB.

Mawr fydd fy lwc, os ca'i fy meinwen,
Mae'n anhawdd gweled merch mor gymmen.

MERCH.

Mae geni goffor glân o dderwen,
Yn llawn o ddillad hyd y ddaupen.

MAB.

Pryd yr awn i Gwen lliw'r manod,
I ymrwymo mewn pur ammod?

MERCH.

Ar ôl pasio y gostegion,
Mi gawn gyflawni'r holl bromeision.

Mole-Catcher a'i cânt.

---

1839.